Driver & Vehicle Licensing Agency

**INF188/5W**

# Gyrwyr lorïau neu fysiau gyda diabetes sy'n cael ei drin gan ddeiet yn unig

## Pryd mae angen ichi ddweud wrthym?



**Cadwch y daflen hon yn ddiogel fel eich bod yn gallu cyfeirio ati yn y dyfodol.**

**Os ydych yn gyrru lori neu fws, does dim angen ichi ddweud wrthym os yw eich diabetes yn cael ei drin gan ddeiet yn unig a'ch bod yn rhydd o'r cymhlethdodau a restrir dros y dudalen.**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE CSE

INVESTORS IN PEOPLE™ We invest in people Gold

9/24

Bydd rhai pobl gyda diabetes yn datblygu problemau cysylltiedig a allai effeithio ar eu gyrru.

### Beth sydd angen ichi ddweud wrthym

Yn ôl y gyfraith, rhaid ichi ddweud wrthym os yw unrhyw un o'r canlynol yn gymwys ichi:

- eich bod yn dechrau triniaeth gyda thabledi
- eich bod yn dechrau triniaeth gyda sulphonylurea neu glinide
- eich bod yn dechrau triniaeth gydag inswlin
- rydych yn datblygu unrhyw broblemau gyda chylchrediad neu'r teimlad yn eich coesau neu'ch traed sy'n golygu bod rhaid ichi yrru mathau penodol o gerbydau yn unig, er enghraifft, cerbydau awtomatig, neu gerbydau gyda sbardun neu freciau sy'n cael eu rheoli â llaw – rhaid i hyn fod wedi cael ei nodi ar eich trwydded yrru
- bod unrhyw gyflwr meddygol presennol yn gwaethygu neu eich bod yn datblygu unrhyw gyflwr arall a allai amharu ar eich gallu i yrru'n ddiogel
- eich bod yn cael triniaeth laser i'r naill lygad **neu'r** llall
- eich bod yn cael problemau â'ch golwg yn y naill lygad **neu'r** llall.
- mae angen ichi hefyd fodloni safonau gweledol uwch sy'n berthnasol am yrru galwedigaethol

Mae'r safon golwg cyfreithiol yn golygu bod rhaid ichi allu darllen plât rhif car o 20 metr. Hefyd, mae'n rhaid bod eich meddyg neu optegydd heb ddweud wrthych fod eich golwg cyfredol yn waeth na 6/12 (0.5 degol) ar raddfa Snellen. Os oes gennych unrhyw amheuon, dylech eu trafod â'ch meddyg neu optegydd. Os oes angen, gallwch wisgo sbectolau neu lensys cyffwrdd i fodloni'r ddwy safon.

**Nid yw dyfeisiadau bioptig (telesgop) yn dderbyniol i'w defnyddio wrth yrru ym Mhrydain Fawr.**

**Er lles diogelwch y ffordd, rhaid ichi fod yn siŵr eich bod yn gallu rheoli cerbyd modur yn ddiogel bob amser.**

### Sut i roi gwybod inni

Os bydd eich meddyg, arbenigwr neu optegydd yn dweud wrthych am roi gwybod inni am eich cyflwr, bydd angen ichi lenwi holiadur meddygol VDIAB1GENW am ddiabetes.

Mae holiaduron ar gael i'w lawrlwytho o **www.gov.uk/driving-medical-conditions**

Mae holiaduron ar gael i'w harchebu drwy:

Ffonio: **0300 790 6806** neu **0300 790 6819** am y llinell uniongyrchol Gymraeg

Ysgrifennu i: **Grŵp Meddygol Gyrwyr**
**DVLA**
**Abertawe**
**SA99 1TU**

### Cyfeiriadau defnyddiol

**Diabetes UK Cymru**
Wing A
Global Reach,
Dunleavy Drive
Caerdydd
CF11 0SN

**Diabetes UK Scotland**
The Venlaw
349 Bath Street
Glasgow
G2 4AA

**Diabetes UK Central Office**
Wells Lawrence House
126 Back Church Lane
Llundain/London
E1 1FH

**Diabetes UK**
Gwefan: **www.diabetes.org.uk**

**Ewch i www.gov.uk/browse/driving am fynediad hawdd a chyflym i'n gwasanaethau ar-lein**
**Arbedwch amser ac ewch ati ar-lein nawr**